
BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN

MAY 2013 / MAI 2013



NEWIDIADAU I'R SYSTEM LES

Rhybuddiodd y Gweinidog, Huw Lewis AC, y mis hwn bod y newidiadau i'r system les yn gosod marc cwestiwn dros allu Llywodraeth Cymru i drosglwyddo cymorth i rai o bobl mwyaf bregus Cymru.

Yn siarad yn y Senedd, fe nododd sut y bydd cynlluniau San Steffan i ddisodli'r holl fudd-daliadau gyda'r 'Credyd Cynhwysol' yn cael effaith taro ymlaen ar gymorth Llywodraeth Cymru fel prydau ysgol am ddim. Yng Nghymru, mae faint o fudd-daliadau y mae unigolyn yn ei dderbyn yn cael ei ddefnyddio fel ffon fesur wrth asesu ei hawl i amrywiol fudd-daliadau lles Llywodraeth Cymru, fel prydau ysgol am ddim, cynllun grant gwisg ysgol a thriniaeth ddeintyddol GIG am ddim. Caiff y rhain eu galw'n fudd-daliadau 'trosglwyddedig'.

Mae'r gweinidog yn bryderus iawn nad yw Llywodraeth y D.U. yn rhyddhau gwybodaeth allweddol i alluogi Llywodraeth Cymru i osod trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer y budd-daliadau trosglwyddedig hyn o dan y system Gredyd Cynhwysol. Fe waeth ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod y rhai sydd â hawl i gymorth yn parhau i dderbyn cymorth er gwaethaf y newidiadau i'r system les. Fe gwestiynodd hefyd yr honiadau bod y system budd-daliadau newydd yn mynd i gael mwy o bobl i waith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi nifer o fentrau i helpu rhai pobl gyda chymorth wedi'i dargedu, yn cynnwys:

- £22 miliwn yn 2013-2014 i sicrhau bod y 330,000 o deuluoedd a oedd yn flaenorol yn derbyn Budd-dal y Dreth Gyngor ddim ar eu colled.
- Darparu £2.6 miliwn i Awdurdodau Lleol ar gyfer Grant Pontio Budd-dal y Dreth Gyngor yn dilyn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor.
- £3.9 miliwn o gymorth ychwanegol i bensiynwyr tuag at dalu eu Treth Gyngor.
- Ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg fel y bydd 36,000 o blant a'u teuluoedd yn elwa erbyn diwedd y tymor hwn o'r Cynulliad.

- Mae £75 miliwn yn cael ei fuddsoddi hyd at fis Mawrth 2015 i gefnogi amrywiaeth i brosiectau cymunedol trwy Cymunedau yn Gyntaf, sydd erbyn hyn yn Rhaglen Gymunedol sy'n mynd i'r afael â Threchu Tlodi.
- Cyflwyno Cronfa Cymorth Dewisol yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y D.U. i ddiddymu Benthyciadau Argyfwng a Grantiau Gofal Cymunedol.
- £750,000 ychwanegol i awdurdodau lleol i helpu pobl sydd wedi'u heffeithio gan y toriad mewn budd-dal tai i denantiaid gydag ystafelloedd gwely 'dros ben'.
- Y rhaglen Cynhwysiant Digidol er mwyn helpu lliniaru effaith elfennau digidol diwygiadau lles.
- Yn yr haf, fe fydd Llywodraeth Cymru'n lansio hefyd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi sydd wedi'i adnewyddu.

Mae ymchwil am effaith y newidiadau i'r system les ar Gymru wedi ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) a Phrifysgol Hallam Sheffield. Mae'r darganfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Rhai gyda phlant a theuluoedd incwm isel i ganolig fydd yn cael eu taro waethaf gan y colledion incwm oherwydd y diwygiadau.
- Merthyr Tudful yw'r pedwerydd awdurdod lleol sy'n cael ei effeithio fwyaf ym Mhrydain. Mae Blaenau Gwent, Castell Nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili hefyd yn disgyn o fewn y 25 awdurdod lleol sy'n cael eu heffeithio fwyaf.
- Unwaith y bydd y newidiadau yn y system les wedi dod i'w llawn effaith, mae Prifysgol Hallam Sheffield yn amcangyfrif y bydd Cymru'n colli tua £1.1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad. Mae hyn yn waeth hyd yn oed na'r hyn a nodwyd gan ymchwil IFS.
- Bydd y toriadau yn y budd-daliadau a'r credydau treth yn taro Cymru yn waeth hyd yn oed na'r D.U. yn ei chyfanrwydd oherwydd ei lefelau uwch o ddibyniaeth ar y system les.
- Un o brif nodau Llywodraeth y D.U. yw i'r diwygiadau lles gael mwy o bobl i waith. Ond, mae ymchwil IFS yn awgrymu y bydd unrhyw effaith ar gyflogaeth yng Nghymru yn debygol o fod, ar y gorau, yn ychydig iawn, ac yn dibynnu ar amodau economaidd ehangach.
- Bydd amcangyfrif o 42,500 o bobl yng Nghymru yn colli eu hawl i dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl, colled ar gyfartaledd o hyd at £83 yr wythnos ar gyfer pob hawliwr, a cholled flynyddol o hyd at £183 miliwn yng Nghymru gyfan.

DYFODOL GWASANAETHAU CYNGOR AM DDIM YNG NGHYMRU DAN Y CHWYDDWYDR

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad ar wasanaethau sy'n darparu cyngor am ddim i bobl ar faterion fel dyled, tai, gwaith, a budd-daliadau lles.

Comisiynodd Gweinidogion Cymru yr adolygiad ar y gwasanaethau cyngori nid-er-elw, fel sy'n cael eu darparu gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth ac ati, yn unol â'r pwysau digynsail sy'n wynebu sefydliadau o'r fath o ganlyniad i'r gostyngiad yn eu cyllid, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am gyngor yn yr hinsawdd economaidd gyfoes.

Disgwylir i'r sector gollu tua £3.36 miliwn dros y deunaw mis nesaf gyda chymaint â 50 o swyddi llawn amser yn diflannu.

Mae mudiadau fel Canolfannau Cyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, Llais Defnyddwyr Cymru, Age Cymru, a Gwasanaeth Cyfraith Anableded ymysg y nifer o grwpiau sy'n darparu cyngor am ddim. Fe fydd y newidiadau i'r system Cymorth Cyfreithiol yn unig yn peri i'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru gollu 42 o weithwyr achosion arbenigol.

Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis, yn archwilio darganfyddiadau'r adolygiad er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at yr help y maen nhw ei angen.

RHAGLEN I DDELIO Â DEMOCRATIAETH LEOL WEDI'I GOSOD

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol, Lesley Griffiths wedi gosod ei rhaglen i hyrwyddo Awdurdodau Lleol agored a thryloyw. Mae'n cynnwys mesurau i sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn adlewyrchu'n well y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli.

Wrth siarad yn ystod dadl ar hyrwyddo democratiaeth leol yn y Cynulliad, cyhoeddodd y gweinidog ei bwriad i sefydlu grŵp arbenigol i ystyried sut i annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Bydd y grŵp arbenigol yn ystyried canlyniadau arolwg a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch ymgeiswyr fu'n llwyddiannus a rhai fu'n aflwyddiannus yn etholiadau lleol 2012; derbyn tystiolaeth gan fuddgyfranogwyr, a gosod cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol i gyd-annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Hefyd, fe anogodd y Gweinidog yr Awdurdodau Lleol i wneud y gorau o'r £660,000 sydd ar gael dros 3 blynedd i helpu Awdurdodau Lleol i wella archwiliadau ac annog Cynghorau Sir i fanteisio ar gyllid Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddarlledu gweithrediadau cynghorau.

Galwodd y gweinidog hefyd ar gynghorau tref a chynghorau cymuned i gofleidio'r cyfleoedd y bydd gwefannau'n eu cynnig i ymwneud â'u cymunedau'n effeithiol.

PROFION DARLLEN A RHIFEDD YN DECHRAU

Bydd y profion cenedlaethol newydd, y bydd disgyblion ym mlynnyddoedd 2 i 9, yn eu sefyll o'r 8^{fed} i'r 22^{ain} Mai, yn disodli'r profion a gynhyrchwyd yn fasnachol a ddefnyddiwyd yn flaenorol mewn ysgolion.

Trwy ddilyn y cynnydd o ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd drwodd i addysg uwchradd, mae'r profion wedi'u llunio i roi golwg gliriach i athrawon ar ddatblygiad a chynnydd y dysgwyr. Fe fydd hyn yn caniatáu iddyn nhw nodi cryfderau a mannau ar gyfer gwelliannau, ac i ymyrryd ar gam cynharach os yw dysgwyr yn syrthio'n ôl.

Mae'r profion wedi'u llunio i fod mor hyblyg ac mor ddysgwyr-gyfeillgar â phosibl. Gall dysgwyr iau, er enghraifft, sefyll y profion rhifedd a darllen mewn sesiynau byrrach na'r cyfnod di-dor o awr gyfan os yw'r ysgol yn teimlo y byddai hynny'n helpu'r plant i berfformio ar orau eu gallu.

Bydd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll prawf darllen mewn Cymraeg yn unig ym mlynnyddoedd 2 a 3, ond mewn Cymraeg a Saesneg o flwyddyn 4 ymlaen. Bydd gan yr ysgolion ddewis i ddefnyddio'r profion yn y ddwy iaith ym mlwyddyn 3. Bydd dysgwyr yn sefyll y prawf rhifedd naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Bydd y profion yn cynhyrchu adroddiadau i rieni/ gofalwyr, a fydd yn rhoi darlun cliriach o allu eu plentyn, a hefyd yn eu galluogi i godi unrhyw faterion dichonadwy gydag athrawon ar gam cynnar.

Am ragor o fanylion ynghylch y profion cliciwch [yma](#).

70 SEFYDLIAD SECTOR CYHOEDDUS YN YMUNO Â GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL NEWYDD

Mae Jane Hutt, Gweinidog Cyllid Cymru wedi cyhoeddi bod dros saith deg o sefydliadau sector cyhoeddus wedi cytuno i ymuno â Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd Cymru.

Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn cael ei lansio ym mis Tachwedd, gan sefydlu a rheoli contractau ar gyfer gwariant cyffredin a chyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fe fydd yn lleihau gwariant, yn dileu dyblygiad, yn datblygu model caffaeliad cynaliadwy ac yn cynyddu effeithlonrwydd. Fe fydd hefyd yn datblygu cadwyni cyflenwi lleol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru elwa ar wariant yn y sector cyhoeddus.

Mae nwyddau a gwasanaethau cyffredin a chyson yn cynnwys tua 20 – 30% o gyfanswm gwariant caffaeliad y sector cyhoeddus o £4.3 billion ac yn cynnwys eitemau fel offer swyddfa, dodrefn swyddfa, gwasanaethau proffesiynol, caledwedd a meddalwedd TG, a fflydoedd.

Unwaith y bydd yn gweithredu'n llawn, fe allai'r NPS gynhyrchu arbedion o hyd at £25m y flwyddyn – a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi i gryfhau gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

Bydd Llywodraeth Cymru, yr holl Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Prifysgolion, Colegau, Gwasanaethau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru yn ymuno â'r gwasanaeth newydd.

CYHOEDDI CANLYNIADAU AROLWG STAFF GIG CYMRU

Y mis hwn cyhoeddodd Gweinidog Iechyd Cymru Mark Drakeford ganlyniadau arolwg newydd o dros 22,000 o staff y GIG.

Mae'r darganfyddiadau allweddol yn cynnwys:

☒☒ Mae mwy nag wyth o bob deg aelod o staff yn dweud eu bod yn fodlon mynd y 'filltir arall' yn y gwaith, ac mae mwy nag wyth o bob deg yn teimlo bod eu rôl yn gwneud gwahaniaeth i gleifion.

☒☒ Dim ond un o bob deg aelod o staff sy'n anghytuno â'r angen am newid yn y GIG.

☒☒ Mae bron i wyth o bob deg aelod o staff yn cytuno bod eu cyflogwr yn eu hannog i adrodd am gamgymeriadau neu ddigwyddiadau 'agos at fethu', a naw o bob deg yn dweud bod materion o'r fath yn cael eu hadrodd.

☒☒ Fe fyddai'r rhan fwyaf o'r staff yn fodlon argymhell y safon gofal sy'n cael ei ddarparu gan eu sefydliad.

☒☒ Dywedodd bron i naw o bob deg aelod o staff a fu'n dyst i gamgymeriad bod y digwyddiad wedi ei adrodd, a chytunai pedwar o bob pump bod eu cyflogwr yn annog staff i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath.

Ymatebodd 22,392 aelod o'r staff i'r arolwg, y gyntaf ers 2007 – tua 27 y cant o weithlu'r GIG. Lluniwyd yr arolwg gan Fforwm Partneriaeth Cymru, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, rheolwyr y GIG, undebau a chymdeithasau staff.

Gallwch weld yr arolwg [yma](#).

GERAINT HOPKINS,

SWYDDOG POLISI,

CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU

029 2046 4378